

Drwy e-bost at bob ysgol a choleg yng Nghymru

8 Ionawr 2021



Annwyl Bennaeth Canolfan

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi, yn dilyn [cyhoeddiad](#) y Prif Weinidog heddiw (8 Ionawr 2021) fod rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddysgu o bell tan 29 Ionawr, ein bod wedi [cyhoeddi](#) ni fydd asesiadau mewnol y gwanwyn, y bwriadwyd eu cynnal rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill, ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, yn digwydd bellach. Roedd hon yn gyfnod asesu newydd a gyhoeddwyd cyn y Nadolig fel rhan o drefniadau newydd i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn haf 2021.

Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn oherwydd ein bod yn gwybod y bydd y newid i ddysgu o bell i'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn effeithio ar paratodau ar gyfer yr asesiadau hyn, gan effeithio o ganlyniad ar degwch yr asesiadau a lles dysgwyr ac athrawon a darlithwyr. Mi fydd y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni'r Gweinidog nawr yn ystyried y ffordd ymlaen ac mi fydd mwy o wybodaeth a manylder am y trefniadau diwygiedig ar gael yn fuan.

Bydd arholiadau Ionawr 2021 ar gyfer cymwysterau galwedigaethol Cymru'n unig yn parhau yn ôl y bwriad. Mae CBAC wedi cyhoeddi datganiad [yma](#). Mae Adran Addysg y [DU](#) wedi cadarnhau y bydd arholiadau galwedigaethol tair gwlad hefyd yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad ym mis Ionawr. Os na all dysgwyr sefyll eu harholiadau ym mis Ionawr, byddant yn cael cyfle i gwblhau eu hasesiadau yn yr haf.

Rydyn ni'n gwybod y bydd dysgwyr yn bryderus ac mae angen eglurder arnyn nhw ar yr adeg cythryblus yma. Am y rheswm hwn, rydym wedi paratoi llythyr at ddysgwyr a fydd yn cael eu hanfon gan CLILC heddiw.

#### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at [cyfathrebu@cymwysteraucymru.org](mailto:cyfathrebu@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir,



Philip Blaker

Prif Weithredwr